



Panel Dyfarnu Cymru Adroddiad Blynyddol

Blwyddyn 2021 – 2022

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Crynodebau o achosion	12
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	17
Adran 5	Gwariant	18

Rhagair

Dyma fy seithfed adroddiad blynyddol fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gweithio er budd y cyhoedd drwy ddelio ag unrhyw anghydfodau yn effeithlon ac effeithiol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg o fewn cyfnod mor fyr ag sy'n rhesymol. Rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei drin yn deg er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae Panel Dyfarnu Cymru wedi ymdrin â nifer anghyffredin o uchel o achosion. Nid yw'n amlwg a yw hyn yn gysylltiedig ag effaith pandemig COVID-19, y cylch etholiadol neu a yw o ganlyniad i amrywiad naturiol. Nid oes thema gyffredin yn yr achosion a glywyd. Eleni, ymddangosodd pob math o gynghorwyr gerbron Panel Dyfarnu Cymru, o arweinwyr cynghorau i aelodau cynghorau cymuned. Oherwydd y dyletswyddau newydd ar arweinwyr pleidiau mewn llywodraeth leol yn ymwneud â safonau mewn bywyd cyhoeddus, disgwylir y bydd materion yn gwella. Rwy'n parhau i fod o'r farn mai blwyddyn dda ar gyfer safonau yw pan fydd Panel Dyfarnu Cymru yn dawel.

Ar adeg ysgrifennu'r rhagair hwn, mae etholiadau llywodraeth leol 2022 newydd gael eu cynnal. Rwy'n llongyfarch y rheini sydd wedi'u hethol i'w rôl bwysig mewn gwasanaeth cyhoeddus, ond rwyf hefyd yn annog cynghorwyr i fanteisio ar yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad y bydd swyddogion monitro ac eraill yn ei gynnig iddynt, ac i adolygu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyfforddiant o'r fath wedi'i gynllunio i helpu a chefnogi cynghorwyr i weithio er lles eu cymunedau gan gadw at y Cod ac osgoi gorfod ymddangos gerbron y pwyllgor safonau na Phanel Dyfarnu Cymru.

Yn olaf, rwy'n nodi argymhellion adolygiad Penn a'i gynigion ar gyfer newidiadau i bwerau a gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu rywun arall. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried ei sefyllfa mewn perthynas â'r adroddiad y gwnaeth ei gomisiynu, a'i weithredu. Rwy'n ymwybodol bod Tribiwnlysoedd Cymru yn gyffredinol yn wynebu cyfnod o newidiadau sylweddol yn dilyn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfiawnder yng Nghymru, ond rwy'n hyderus y bydd Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i gyflwyno penderfyniadau teg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod gan ddiogelu rhyddid mynegiant y rheini sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth.

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd.

Claire Sharp
Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Y sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru
- Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru
- Rheoliadau Panel Dyfarnu Cymru
- Proses Panel Dyfarnu Cymru
- Aelodau Panel Dyfarnu Cymru
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â Phanel Dyfarnu Cymru
- Defnyddio Panel Dyfarnu Cymru

Y sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn driwlynlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.

Mae gan y Panel ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio triwlynlysoedd achos neu driwlynlysoedd achos interim ("Triwlynlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod;
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Triwlynlysoedd Apêl").

Rheoliadau Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos sy'n cael ei glywed gan y Panel yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Panel. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd),
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)).

Proses Panel Dyfarnu Cymru

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i Banel Dyfarnu Cymru lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at y Panel.

Mewn gwrandawriad gan Banel Dyfarnu Cymru bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a dau aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir y gwrandawiadau yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i gyflwyno apêl iddo.

Mae canllawiau a gwybodaeth lawn am Banel Dyfarnu Cymru a'i weithdrefnau ar gael ar ei wefan. Fel arall, cysylltwch â'r tîm gweinyddol i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 7.

Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Mae penodiadau i Banel Dyfarnu Cymru yn cael eu gwneud gan y Prif Weinidog ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Llywydd Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros y Panel a'i aelodau.


Dirprwy Lywydd Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol.

Aelodau Cyfreithiol Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawriadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r Panel ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen.

Aelodau Lleyg Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Panel.

Y Tîm Gweinyddol

Mae'r gweithrediadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i raddau helaeth i'r tîm gweinyddol sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu'r ceisiadau sy'n dod i law. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partion yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr y Panel, ac yn mynychu gwrandawriadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi penodi un aelod lleyg newydd.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi ar **15 Mai 2021**, gyda phwyslais parhaus ar grefft y barnwr, ynghyd â diweddariadau cyfraith achosion a sesiwn ar hygyrdedd tystion a chanfod ffeithiau.

Cysylltu â'r Panel

I gysylltu â Thîm Gweinyddol Panel Dyfarnu Cymru:

Cyfeiriad y Panel: Cofrestrydd y Panel
Panel Dyfarnu Cymru
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
PO BOX 100
Llandrindod
LD1 9BW

Rhif ffôn:

03000 259805

E-bost:

adjudication.panel@llyw.cymru

Defnyddio'r Panel

Mae'r Panel yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawriad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawriad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawriad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o bum mlynedd i ganiatáu cymharu.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu casglu:


- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law fesul blwyddyn Ebrill 2017-Mawrth 2022




* Roedd ffigur 2018-2019 wedi'i nodi'n anghywir yn Adroddiad Blyneddol 2018-2019 ac mae wedi'i gywiro uchod.

Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn, Ebrill 2017-Mawrth 2022




Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2017-Mawrth 2022

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt gan y Panel dros y pum mlynedd diwethaf



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math, Ebrill 2017-Mawrth 2022



Data gwrandawiadau

Yn ystod 2021-2022:

Math

Atgyfeiriad

Apêl

Hyd (mewn diwrnodau)

8 diwrnod gwrandawriad

2 diwrnod gwrandawriad

Cynhaliwyd chwech o gynadleddau trefnu mewn perthynas â'r achosion hyn.

Apeliadau pellach


Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawriad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

Cyflymder ein gwasanaeth 2021-2022



Cwynion

Cafodd Panel Dyfarnu Cymru un gwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw, gan ddod i gasgliad ynglŷn â'r mater.

Adran 3 – Crynodebau o Achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Apeliadau

Atgyfeiriadau

Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd **pedwar tribiwnlys achos** o ganlyniad i atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon. Mae crynodebau o'r achosion a benderfynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w gweld isod:

[APW/003/2020-021/CT](#)

[Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i God Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili drwy ymddwyn mewn modd a ystyriwyd a oedd yn dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, gan ddefnyddio ei swydd i sicrhau mantais, methu â datgelu buddiant personol ym musnes y cyngor wrth fynychu cyfarfod neu wneud sylwadau ysgrifenedig, a pheidio â gadael cyfarfod a oedd yn ymdrin â mater yr oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo (heb gael caniatâd).

Y cynghorydd oedd Arweinydd y Cyngor. Yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd, aeth i gyfarfodydd Cabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig, sy'n drefniant gwaith ar y cyd rhwng 10 Cyngor. Roedd y cynghorydd hefyd yn gyfarwyddwr cwmni buddsoddi. Ar ôl gweld adroddiad cyfrinachol, fe wnaeth y cynghorydd fuddsoddi yn bersonol mewn cwmni a oedd wedi'i effeithio gan gynnwys yr adroddiad hwnnw. Pan geisiodd y cynghorydd addasu ei gofrestr buddiannau ychydig fisoedd yn ddiweddarach i nodi'r buddsoddiad, rhoddodd uwch swyddog wybod nad oedd angen iddo wneud hynny; yna fe fethodd â datgan buddiant mewn cyfarfod diweddarach o'r Fargen Ddinesig, ond fe wnaeth hynny ar achlysuron eraill, a gadael y cyfarfodydd hynny.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel a ganlyn:

- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Ni ddylech, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol er mewn cael neu sicrhau mantais i chi eich hun neu i rywun arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu rywun arall (paragraff 7(a));
- Os oes gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod a'ch bod yn mynychu cyfarfod lle caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid ichi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant cyn neu ar ddechrau'r eitem honno, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg (paragraff 11(1));
- Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod, oni bai eich bod wedi cael caniatâd gan bwyllgor safonau eich awdurdod dylech (a) adael yr ystafell, y siambr neu'r lleoliad lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei gynnal...” , (paragraff 14(1)(a)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i gasgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o awdurdod perthnasol o ganlyniad i fynd yn groes i baragraffau 6 a 7 o'r Cod, a hynny am gyfnod o bum mis, ac o ganlyniad i fynd yn groes i baragraffau 11 a 14 o'r cod dylid ei wahardd am ddau fis yn cydreddeg. Yn ogystal, argymhellwyd fod y swyddog monitro yn ail-bwysleisio'r angen i aelodau gofrestru buddiannau wrth iddynt godi, ac nad yw'r ddyletswydd hon yn digwydd unwaith y flwyddyn yn unig.

APW/001/2021-022/CT

Cyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw drwy fwlio ac aflonyddu ar eraill, methu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill, ymddwyn mewn modd a ystyrir sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod a defnyddio ei swydd i sicrhau mantais a methu â chadw at y gyfraith a rheolau'r awdurdod sy'n ymwneud â hawlio treuliau a lwfansau.

Roedd y cynghorydd yn aelod o gyngor cymuned ac roedd angen cymorth ychwanegol i wneud ei swydd oherwydd ei anableddau. Ceisiodd daliad am dreuliau y dywedodd a oedd yn angenrheidiol i'w alluogi i wneud ei waith, ond gwrthododd clerc y Cyngor y ceisiadau ar y sail nad oedd hi'n fodlon â'r dystiolaeth a roddwyd. Arweiniodd hyn at gyfres o negeseuon e-bost lle cododd y cynghorydd gwestiynau am gymwysterau'r clerc, mynegodd amheuaeth ynghylch y cyfiawnhad ar gyfer ei chyflog, diraddiodd y gwaith yr oedd hi'n ei wneud a chyfeiriodd ati yn y pen draw fel rhan o'r hyn a alwodd yn **"axis of evil"** a oedd yn ei fwlio. Pan ddaeth y Cadeirydd ynghlwm â hyn, anfonodd y cynghorydd negeseuon e-bost dilornus ato ef hefyd. Yn ystod ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fe wnaeth y cynghorydd ymyrryd â thystiolaeth tyst ac ysgrifennodd lythyr (yn honni i fod gan y tyst) yn ceisio cilio rhag y dystiolaeth a roddwyd i'r ombwdsmon.

Canfu Tribiwnlys yr Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

- Rhaid i chi ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill (paragraff 4(b));
- Ni ddylech ymddwyn mewn modd sy'n bwlio nac aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Ni ddylech ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Ni ddylech, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol er mewn cael neu sicrhau mantais i chi eich hun neu i rywun arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu rywun arall (paragraff 7(a));
- Rhaid i chi (a) gadw at y gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau yn gysylltiedig â'ch dyletswyddau fel aelod (paragraff 9(a)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i gasgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o awdurdod perthnasol am gyfnod o 12 mis.

APW/005/2021-022/CT

Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilleth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilleth drwy beidio ag ystyried cyfle cyfartal i bawb wrth wneud ei ddyletswyddau, drwy fwlio neu aflonyddu ar eraill, drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill, drwy ymddwyn mewn modd a ystyrir sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, a thrwy fethu â chydymffurfio â cheisiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod ei ymchwiliad.

Roedd y cynghorydd yn aelod o gyngor cymuned, ynghyd â chynghorydd arall a oedd â nam ar y clyw. Roedd y cynghorydd a gyhuddwyd yn ddigywilydd iawn i'w gydweithiwr am ei hanabledd ar fwy nag un achlysur a cheisiodd ei wneud yn anodd iddi gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Yn ogystal, yn ystod ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, canfuwyd bod y cynghorydd a gyhuddwyd wedi methu â chymryd rhan na chydweithredu yn yr ymchwiliad (gan gynnwys methu ag ateb cwestiynau ysgrifenedig) ac nad oedd hyn oherwydd ei iechyd fel yr oedd wedi honni.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

- Rhaid ichi gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, oedran neu grefydd (paragraff 4(a));
- Rhaid i chi ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill (paragraff 4(b));
- Peidiwch â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol i ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais a ddaw gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'u pwerau statudol perthnasol (paragraff 6(2)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i gasgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o awdurdod perthnasol am gyfnod o 10 mis. Argymhellodd hefyd y dylai'r cynghorydd a gyhuddwyd wneud hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, a rhoi ymddiheuriad ysgrifenedig llawn i'w gydweithiwr mewn perthynas â'i ymddygiad tuag ati wrth fynd yn groes i'r Cod.

[APW/006/2021-022/CT](#)

[Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon a Chyngor Gwynedd](#)

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon a Chyngor Gwynedd drwy fwlio neu aflonyddu ar eraill, drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill, drwy ymddwyn mewn modd a ystyrir sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod, a thrwy fethu â chydymffurfio â cheisiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod ei ymchwiliad.

Roedd y cynghorydd yn anhapus gyda gweithgareddau cydweithiwr yn ystod pandemig COVID-19. Rhoddodd sylwadau ar Facebook i bardduo ei enw ac i awgrymu bod ei rieni wedi cael prydau am ddim. Canfuwyd ei fod wedi ymosod ar drydydd parti pan oedd yr unigolyn hwnnw allan yn dosbarthu taflenni gyda'r cynghorydd arall, ac ar sawl achlysur fe wnaeth fygwth a honni ei fod wedi dechrau achos llys am iawndal a/neu ryddhad gorchmynnol a/neu gwyn aflonyddu gyda'r Heddlu yn erbyn y cynghorydd yr oedd ganddo wrthwynebiad ag o. Canfuwyd nad oedd y cynghorydd wedi cymryd rhan yn ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Er bod y cynghorydd a gyhuddwyd wedi mynnu nad oedd yn iach, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth feddygol i Banel Dyfarnu Cymru nac i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Canfu'r Tribiwnlys Achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

- Rhaid i chi ddangos parch a bod yn ystyriol o eraill (paragraff 4(b));
- Peidiwch â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol i ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais a ddaw gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhaliwyd yn unol â'u pwerau statudol perthnasol (paragraff 6(2));
- Ni ddylech, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol er mewn cael neu sicrhau mantais i chi eich hun neu i rywun arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu rywun arall (paragraff 7(a)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i gasgliad unfrydol y dylid gwahardd y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o awdurdod perthnasol am gyfnod o naw mis.

Apeliadau

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd dau dribiwnlys apêl sy'n deillio o benderfyniad a wnaed gan bwyllgor safonau llywodraeth leol. Yn ogystal, gwrthododd y Llywydd hawl i apelio ar gyfer un o'r apeliadau.

Mae crynodeb o'r achos a benderfynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru i'w weld isod:

APW/002/2021-022/AT

Cyngor Sir Ddinbych

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i God Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych ac y dylid ei wahardd o'i swydd am 2 fis.

Deilliodd yr achos o benderfyniad y cynghorydd i gymryd rhan mewn anghydfod personol rhwng etholwr ac unigolyn arall mewn maes parcio. Penderfynodd y cynghorydd ymchwilio a cheisio cael gweld y recordiad teledu cylch cyfyng, ac aeth i weithle'r unigolyn a siarad gyda'i chydweithwyr am y mater. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd lythyr yn cwyno i gyflogwr yr unigolyn am y digwyddiad yn y maes parcio.

Daeth y pwyllgor safonau i'r casgliad bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r paragraffau a ganlyn:

- Peidiwch â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol i ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Ni ddylech, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd i sicrhau mantais i chi eich hun neu i eraill, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu i eraill (paragraff 7(a)).

Rhodddwyd caniatâd i apelio gan y Llywydd dim ond mewn perthynas â'r mater yn ymwneud ag a oedd camau gweithredu'r cynghorydd gyfystyr ag aflonyddwch ac a ddylid adolygu'r gosb a roddwyd. Canfu'r Tribiwnlys Apêl drwy benderfyniad unfrydol bod camau gweithredu'r cynghorydd gyfystyr ag aflonyddwch, a bod hyn yn groes i'r Cod, a chefnogodd y gosb o waharddiad am ddau fis gan y pwyllgor safonau.

APW/003/2021-022/AT

Cyngor Wrecsam

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i God Ymddygiad Cyngor Wrecsam ac y dylid ei wahardd o'i swydd am dri mis.

Deilliodd yr achos o benderfyniad y cynghorydd i gwyno am aelod o'r cyhoedd i'w chyflogwr (ac anfon copi at y rheolydd perthnasol) oherwydd ei bod hi wedi cwyno amdano i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Daeth y pwyllgor safonau i'r casgliad bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r paragraffau a ganlyn:

- Peidiwch â bwlio neu aflonyddu ar unrhyw berson (paragraff 4c);
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol i ystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Ni ddylech, mewn capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol er mewn cael neu sicrhau mantais i chi eich hun neu i rywun arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun neu rywun arall (paragraff 7(a)).

Rhodddwyd caniatâd i apelio gan y Llywydd ynglŷn ag a ddylid adolygu'r gosb a roddwyd; roedd y cynghorydd yn dibynnu'n rhannol ar waharddiad o ddau fis a roddwyd gan bwyllgor safonau Cyngor Sir Ddinbych am ymddygiad tebyg. Canfu'r Tribiwnlys Apêl drwy benderfyniad unfrydol y dylid adolygu'r gosb ac argymhellwyd y dylai'r pwyllgor safonau ystyried gwaharddiad o ddau fis. Ar ôl cyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor safonau, gwrthododd newid y gosb a daeth y gwaharddiad tri mis i rym.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2022-2023

Mae'n bwysig bod Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Panel yn adeiladu ar ei lwyddiannau trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2022-2023

- Cynllunio a darparu digwyddiad hyfforddiant i'r holl aelodau;
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Yn ddibynnol ar sefyllfa'r pandemig, dychwelyd fel y bo'n briodol i wrandawiadau "wyneb yn wyneb" a mynychu digwyddiadau allweddol;
- Yn dilyn canlyniad adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar dribiwnlysoedd Cymru a'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol, gweithredu unrhyw newidiadau fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwrfa.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2021-2022

Gwariant ar gyfer 2021-2022

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau Aelodau (achosion a hyfforddiant)	£41,370
Digwyddiadau Tribiwnlys (costau gwrandawriad a chostau eraill)	£7,780
Cyfanswm	£49,151

wedi'u talgrynnu i'r £1 agosaf